

Arolygiad Gwasanaeth Anabledd Dysgu (Dirybudd)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae
Abertawe, Gwasanaeth Anabledd
Dysgu (Cyf 21160)

Dyddiad yr arolygiad: 15 Mawrth
2022

Dyddiad cyhoeddi: 17 Mehefin
2022

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	17
4.	Beth nesaf?	20
5.	Sut rydym yn arolygu ysbytai	21
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	22
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	23
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	27

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Mae cleifion wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arferion da

Dylanwadu ar bolisiâu a safonau:

Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiâu, safonau ac arferion

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o'r gwasanaeth anabledd dysgu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 15 Mawrth 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un uwch-arolygydd gofal iechyd AGIC, un arolygydd gofal iechyd AGIC ac un adolygydd cymheiriaid clinigol. Arweiniwyd yr arolygiad gan yr uwch-arolygydd gofal iechyd AGIC.

Archwiliodd AGIC y ffordd yr oedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o ysbytai yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Gwelsom fod trefniadau ar waith gyda'r bwriad o fodloni'r Safonau Iechyd a Gofal sy'n berthnasol i'r gwasanaeth anabledd dysgu.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen gwella agweddau ar y gwasanaeth a ddarperir a gwnaethom ofyn i'r bwrdd iechyd gymryd camau i fynd i'r afael â hyn.

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, gwnaethom ofyn hefyd i'r bwrdd iechyd gymryd camau ar unwaith mewn perthynas â'r amgylchedd, asesu risg a gwirio offer brys er mwyn hyrwyddo diogelwch a llesiant y cleifion.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Gwelsom gydymffurfedd da â rhaglen hyfforddi staff y bwrdd iechyd
- Roedd yr holl staff wedi cael arfarniad o'u gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

Rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Agweddau ar yr amgylchedd, a'r trefniadau i sicrhau bod materion yn ymwneud ag ystadau yn cael eu nodi, ac yr eir i'r afael â nhw, mewn modd amserol
- Faint o wybodaeth a gaiff ei harddangos ar gyfer y cleifion
- Cofnodi gwiriadau ar yr offer brys
- Adolygiadau penodol o ddigwyddiadau lle mae data yn dangos cynnydd yn y defnydd o arferion cyfyngol, yn benodol y defnydd o neilltuo
- Cwblhau dogfennau derbyn ac asesiad risg cychwynnol

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Ar adeg ein harolygiad, gallai'r gwasanaeth anabledd dysgu ddarparu gofal i hyd at dri chlaf ag anableddau dysgu. Mae'r uned yn rhan o'r gwasanaethau anabledd dysgu a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (pan oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom fod y staff yn trin y cleifion â pharch ac yn ymdrechu i hyrwyddo eu preifatrwydd a'u hurddas. Fodd bynnag, roedd angen mynd i'r afael ag agweddau ar yr amgylchedd a allai effeithio'n negyddol ar lesiant y cleifion.

Roedd cofnodion gofal cleifion yn dangos bod anghenion gofal a thriniaeth y cleifion yn cael eu hasesu. Gwelsom fod angen cymryd camau i annog y staff i gwblhau'r dogfennau asesu yn llawn.

Dywedwyd wrthym fod y cleifion yn cael gwybodaeth am eu gofal a'u triniaeth. Fodd bynnag, dylid gwneud ymdrechion pellach i arddangos gwybodaeth berthnasol yn yr uned.

Cadw'n iach

Disgrifiodd rheolwr yr uned drefniadau addas ar gyfer asesu anghenion gofal iechyd y cleifion cyn iddynt gael eu derbyn i'r uned. Gwelsom hefyd dystiolaeth o asesu yn y sampl o gofnodion gofal a ystyriwyd gennym fel rhan o'r arolygiad.

Esboniodd y rheolwr y byddai'r cleifion yn cael eu hannog i wneud dewisiadau ffordd iach o fyw pan fyddai hynny'n briodol. Cadarnhaodd y rheolwr hefyd y byddai'r cleifion yn cael eu hatgyfeirio at aelodau eraill o'r tîm amlddisgyblaethol i gael eu mewnbwn arbenigol yn ôl yr angen.

Gofal ag urddas

Gwelsom fod y staff yn trin y cleifion â pharch a charedigrwydd, ac yn annog y cleifion i gymryd rhan mewn gweithgareddau cadarnhaol yn ôl eu diddordebau. Fodd bynnag, gwelsom fod angen gwneud gwelliannau i'r amgylchedd o dan do ac yn yr awyr agored er mwyn sicrhau y caiff y cleifion ofal ag urddas.

Roedd gan y cleifion eu hystafell wely eu hunain, eu hystafell ymolchi eu hunain a lle preifat. Fodd bynnag, nid oedd ffenestr un o'r tair ystafell wely a ddefnyddir

fel llety yn agor i ganiatáu awyru, ac nid oedd bleindiau ffenestr addas gan ystafell wely arall i gynnig preifatrwydd.

Roedd un o'r ystafelloedd ymolchi mewn cyflwr gwael, gyda thwll draenio heb ei orchuddio yn y llawr a gorchuddion tapiau ar goll. Yn yr ardd, roedd eitemau o ddodrefn wedi torri yr oedd angen cael gwared arnynt. Yn ogystal ag edrych yn hyll, roedd y rhain yn beryglon posibl i ddiogelwch y cleifion a'r staff a gallent gael effaith negyddol ar lesiant y cleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod amgylchedd yr uned yn cael ei gynnal i safon foddhaol.

Gwybodaeth i gleifion / Cyfathrebu'n effeithiol

Gwelsom fod y staff yn ymdrechu i roi gwybodaeth i'r cleifion am eu gofal a'u triniaeth mewn ffordd y maent yn gallu ei deall.

Dangosodd rheolwr yr uned lyfryn i ni yn darparu gwybodaeth, mewn fformat hawdd ei ddeall, am eu harhosiad yn yr uned. Gwelsom fod hwn yn cynnwys gwybodaeth berthnasol a defnyddiol a oedd wedi'i chyflwyno'n glir.

Eglurodd y staff y gofynnir i'r cleifion ynghylch eu dewis iaith pan fyddant yn cyrraedd yr uned. Cadarnhaodd y staff fod taflenni a gwybodaeth ysgrifenedig arall ar gael i'r cleifion mewn iaith wahanol, yn unol â'u hanghenion a'u dewisiadau. Cadarnhaodd y staff hefyd fod staff sy'n siarad Cymraeg yn gweithio yn yr uned, sy'n caniatáu i'r cleifion gyfathrebu yn Gymraeg pe baent yn dewis gwneud hynny.

Eglurodd y staff hefyd y byddai gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â gofal y cleifion yn treulio amser gyda nhw i egluro eu gofal a'u triniaeth mewn ffyrdd y maent yn gallu eu deall.

Er bod ymdrechion yn cael eu gwneud i roi digon o wybodaeth i'r cleifion, nid oedd unrhyw wybodaeth wedi'i harddangos yn yr uned i'r cleifion ei darllen, e.e. deunydd hybu iechyd, am yr eiriolaeth sydd ar gael, gwybodaeth am COVID-19, a sut i roi adborth neu gwyno. Dylai'r bwrdd iechyd adolygu hyn a gwneud trefniadau addas i arddangos gwybodaeth berthnasol a allai fod yn ddefnyddiol i'r cleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i arddangos gwybodaeth berthnasol yn yr uned a allai fod o gymorth i'r cleifion, e.e. deunydd hybu iechyd, am yr eiriolaeth sydd ar gael, gwybodaeth am COVID-19, a sut i roi adborth neu gwyno.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwnaethom adolygu cofnodion gofal y ddau glaf a oedd yn cael eu lletya yn yr uned ar adeg ein harolygiad.

Ar gyfer pob claf, roedd tystiolaeth o asesu eu hanghenion gofal wrth gael eu derbyn i'r uned, er mwyn nodi eu hanghenion cymorth. Roedd asesiadau risg perthnasol hefyd wedi'u cwblhau adeg derbyn. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y rhain wedi'u cwblhau'n llawn ar gyfer un claf.

Roedd gan y ddau glaf hawl i gael cynllun gofal a thriniaeth o dan Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010. Roedd cynllun gofal a thriniaeth cyfredol ar gael ar gyfer un o'r cleifion ond nid oedd ar gael ar gyfer y llall. Cadarnhaodd y rheolwr y gwnaed cais am hwn eisoes, ac roedd y rheolwr wrthi'n sicrhau y caiff y gwaith ei gyflawni.

Yn y cofnodion gofal ar gyfer y ddau glaf, roedd tystiolaeth bod y cleifion yn cael eu helpu i ddeall eu gofal ac o fewnbwn y tîm amlddisgyblaethol fel y bo'n briodol.

Hawliau pobl

Ar adeg ein harolygiad, dywedwyd wrthym fod y ddau glaf sy'n cael eu lletya yn yr uned yn destun y trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid.

Gwelsom fod staff yr uned wedi gwneud cais brys am awdurdodiadau o dan y trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid ar gyfer y ddau glaf. Gwnaed cais hefyd am awdurdodiadau safonol ar yr un pryd yn unol â'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid. Fodd bynnag, roedd yr awdurdodiad brys ar gyfer un claf wedi dod i ben, ac ni dderbyniwyd cadarnhad o awdurdodiad safonol. Cadarnhaodd y rheolwr fod y mater hwn wedi'i uwchgyfeirio yn unol â threfniadau'r bwrdd iechyd ynghylch adrodd am ddigwyddiadau.

Cadarnhaodd y rheolwr y gall y cleifion gael mynediad at eiriolaeth a gwelsom fod gwybodaeth i'r cleifion ar gael mewn fformat hawdd ei ddeall. Fodd bynnag, nid oedd hon wedi'i harddangos yn yr uned.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau y caiff y cleifion eu hasesu'n brydlon, yn unol â'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid.

Gwranddo a dysgu o adborth

Disgrifiodd uwch aelod o'r staff drefniadau addas ar gyfer cael adborth gan y cleifion a'u teuluoedd am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Roedd y rhain yn cynnwys tîm dynodedig ar gyfer profiad ac adborth y claf a ddefnyddiodd adnoddau cyfathrebu i helpu'r cleifion ag anableddau dysgu i rannu eu hadborth.

Gwelsom fod gan y bwrdd iechyd bolisi ysgrifenedig cyfredol a gweithdrefnau cysylltiedig ar gyfer ymateb i bryderon a chwynion am y gwasanaeth. Roedd y rhain yn cyd-fynd â 'Gweithio i Wella'.

Cadarnhaodd uwch aelodau o'r staff fod data adborth a chwynion yn cael ei gyflwyno mewn adroddiadau i'r bwrdd iechyd fel rhan o'r trefniadau monitro ansawdd a diogelwch. Gwelsom hefyd enghraifft o adroddiad.

Er bod trefniadau addas wedi'u disgrifio a'u harddangos, nid oedd unrhyw wybodaeth wedi'i harddangos yn yr uned i sicrhau bod y cleifion neu eu cynrychiolwyr yn gwybod sut i roi adborth neu gwyno.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Nodwyd gennym fod angen gwella'r trefniadau ar gyfer rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch mewn perthynas â'r amgylchedd.

Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau gyda phwyslais penodol ar atal lledaeniad COVID-19.

Er bod trefniadau ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau'n ddiogel, gwelsom fod angen gwella'r broses o gofnodi gwiriadau ar offer brys.

Roedd gan y cleifion gynlluniau ymddygiad cadarnhaol cynhwysfawr ac roedd polisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar waith ar gyfer arferion cyfyngol. Roedd angen adolygu un o'r polisïau ac ni chawsom sicrwydd bod adolygiadau o ddigwyddiadau'n cael eu cwblhau yn unol â'r trefniadau a ddisgrifiwyd.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd angen gwella'r trefniadau ar gyfer rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch mewn perthynas â'r amgylchedd. Er i ni weld bod yr uned wedi'i diogelu rhag mynediad anawdurdodedig, gwnaethom nodi nifer o beryglon amgylcheddol a allai beri risg i ddiogelwch y staff a'r cleifion.

Gwelsom fod y ffens bren yn union y tu allan i'r uned wedi cwmpo ac roedd ar y ddaear. Roedd rhannau o'r ffens wedi torri a gwelwyd darnau o botiau planhigion wedi torri hefyd ger ymyl y ffens. Yn ogystal, gwelsom ddodrefn wedi torri ac eitemau eraill yn ardal y patio. Nid oedd yr ardaloedd hyn wedi'u cau er mwyn atal mynediad gan y cleifion neu'r staff.

Ar wahân i edrych yn hyll, mae'r rhain yn cyflwyno perygl ac yn peri risg bosibl i ddiogelwch y cleifion a'r staff. Cadarnhaodd uwch aelodau o'r staff fod angen

gwneud trefniadau i atgyweirio'r ffens a symud yr eitemau eraill, ond nid oedd dyddiad wedi'i nodi ar gyfer cyflawni'r gwaith hwn.

Ymdriniwyd â'n pryderon ynghylch hyn dan ein proses sicrwydd ar unwaith. Roedd hyn yn golygu y gwnaethom ysgrifennu at y gwasanaeth ar unwaith ar ôl yr arolygiad, gan amlinellu'r camau unioni yr oedd angen eu cymryd ar frys. Rhoddir manylion y meysydd i'w gwella ar unwaith a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Atal a rheoli heintiau

Cadarnhaodd uwch aelodau o'r staff fod polisi atal a rheoli heintiau ysgrifenedig cyfredol ar waith a'i fod ar gael i'r staff drwy fewnwyd y bwrdd iechyd. Disgrifiodd uwch aelodau o'r staff hefyd systemau addas ar gyfer atal a rheoli heintiau.

Ar adeg ein harolygiad, pwyslais penodol y systemau hyn oedd atal lledaeniad COVID-19 ac roedd mesurau ychwanegol ar waith yn hyn o beth.

Roedd gwybodaeth wedi'i harddangos yn glir i roi cyfarwyddiadau i'r staff ar sut i ddefnyddio cyfarpar diogelu personol yn gywir yn ôl y tasgau a oedd yn cael eu cyflawni. Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol ar gael yn rhwydd ac yn cael ei ddefnyddio gan y staff.

Dangosodd sgysiau â'r staff eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran atal a rheoli heintiau.

Nid oedd unrhyw wybodaeth wedi'i harddangos yn benodol ar gyfer y cleifion am COVID-19 na mesurau atal a rheoli heintiau. Fodd bynnag, cadarnhaodd y staff fod y cleifion yn cael llyfryn hawdd ei ddeall a bod yr wybodaeth a oedd ynddo yn cael ei hatgyfnerthu ar lafar gan y staff. Dywedodd y staff hefyd fod y cleifion yn cael eu hannog i ymolchi eu dwylo'n rheolaidd, ac yn cael eu goruchwyllo wrth wneud hyn, fel rhan o'r trefniadau atal a rheoli heintiau.

Roedd yr amgylchedd yn caniatáu i'r cleifion gael eu hystafell wely, eu hystafell ymolchi, eu lolfa a'u man bwyta eu hunain i helpu i leihau lledaeniad COVID-19.

Maeth a hydradu

Dywedodd y staff fod y cleifion yn cael dewis o fwyd a diod a chadarnhawyd bod gofynion deietegol penodol y cleifion yn cael eu bodloni. Ar adeg ein harolygiad, dywedwyd wrthym fod angen deiet wedi'i addasu ar un claf a gwelsom fod hwn yn cael ei ddarparu. Roedd y staff ar gael i gynnig cymorth i'r cleifion fwyta eu prydau yn unol â'u hanghenion a aseswyd.

Oherwydd y trefniadau sydd ar waith i leihau lledaeniad COVID-19, roedd yn rhaid i'r cleifion fwyta eu prydau bwyd yn eu hardaloedd dynodedig, yn bell oddi wrth y cleifion eraill. Roedd gan un o'r mannau hyn fwrdd coffi, yn hytrach na bwrdd bwyta addas, ac roedd gan y llall fainc bicnic y tu allan oherwydd bod y claf wedi torri'r bwrdd blaenorol. Dywedwyd wrthym mai dyma'r unig bethau oedd ar gael. Dylid gwneud trefniadau i ddarparu byrddau sy'n fwy addas i'w defnyddio fel byrddau bwyta.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddarparu dodrefn bwyta addas i'r cleifion eu defnyddio tra'u bod yn lletya yn yr uned.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd polisi meddyginiaethau ysgrifenedig cyfredol ar gael. Roedd hwn yn nodi'r trefniadau ar gyfer sicrhau y caiff meddyginiaethau a ddefnyddir yn y gwasanaeth anabledd dysgu eu trin yn ddiogel.

Gwelsom fod meddyginiaethau'n cael eu storio'n ddiogel ac yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, a bod cofnodion priodol yn cael eu cadw.

Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion rhoi meddyginiaeth tri chlaf a chanfod bod y rhain wedi'u cwblhau'n llawn. Fodd bynnag, nid oedd gan ddau o'r cofnodion fanylion ynghylch a oedd gan y cleifion unrhyw alergeddau hysbys. Yn unol â'r polisi, lle nad oes unrhyw alergeddau hysbys, dylid cofnodi hyn yn y blwch alergeddau ar y siart.

Gwnaethom archwilio'r pecyn brys ac ni allem ddod o hyd i dystiolaeth bod y cyffuriau ac offer brys wedi'u gwirio'n ddiweddar. Dywedwyd wrthym ei bod yn bosibl bod y rhestrau gwirio a ddefnyddiwyd i gofnodi gwiriadau'r cyffuriau a'r offer wedi cael eu ffeilio. Fodd bynnag, ni ddarparwyd y rhain pan ofynnwyd amdanynt ar ddiwrnod yr arolygiad. Felly, nid oedd yn bosibl gwybod pryd y gwiriwyd y cyffuriau neu offer brys ddiwethaf, ac a oedd y pecyn brys yn gyflawn ac yn ddiogel i'w ddefnyddio pe bai argyfwng claf yn digwydd. Mae hyn yn cyflwyno risg bosibl i ddiogelwch y cleifion pe bai'r eitemau brys sydd eu hangen ddim ar gael neu ddim yn ddiogel i'w defnyddio.

Ymdriniwyd â'n pryderon ynghylch hyn dan ein proses sicrwydd ar unwaith. Rhoddir manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod y staff yn ymlynu at y polisi meddyginiaeth o ran cofnodi statws alergedd y cleifion.

Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Cadarnhaodd uwch aelodau o'r staff fod polisi a gweithdrefnau ysgrifenedig ar waith ar gyfer ymateb i bryderon diogelu. Disgrifiodd uwch aelodau o'r staff hefyd drefniadau addas ar gyfer adrodd am bryderon diogelu a'u hatgyfeirio.

Roedd gwybodaeth a ddarparwyd gan uwch aelodau o'r staff yn cadarnhau bod yr holl staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth anabledd dysgu wedi cael yr hyfforddiant diogelu diweddaraf.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwnaethom ystyried y trefniadau sydd ar waith i ddiwallu anghenion cleifion o ran agweddau ar eu hymddygiad a allai fod yn heriol.

Gwnaethom adolygu cofnodion gofal y ddau glaf a oedd yn cael eu lletya yn yr uned ar adeg ein harolygiad. Roedd gan y ddau glaf gynlluniau cefnogi ymddygiad cadarnhaol ysgrifenedig, a oedd yn nodi strategaethau rhagweithiol ac adweithiol y gallai'r staff eu defnyddio i reoli ymddygiad y cleifion. Dywedodd y staff mai un strategaeth adweithiol a ddefnyddir ar gyfer un o'r cleifion oedd i'r staff dynnu'n ôl a chloi drws yr ystafell ymolchi, wrth barhau i oruchwylio'r claf. Er bod y cynllun yn fanwl iawn, nid oedd yn cyfeirio at gloi drws yr ystafell ymolchi na lle y dylai'r staff gofnodi eu harsylwadau.

Cadarnhaodd rheolwr yr uned y byddai'r staff yn llunio adnodd rheoli ymddygiad i helpu i nodi a deall y rhesymau dros ymddygiad a allai herio. Cadarnhaodd rheolwr yr uned hefyd fod cyngor ar gael gan dîm ymddygiad arbenigol y bwrdd iechyd yn hyn o beth.

Roedd achosion o ymddygiad a allai herio, a'r defnydd o arferion cyfyngol, yn cael eu cofnodi gan y staff drwy system adrodd digwyddiadau DATIX y bwrdd iechyd.

Darparwyd crynodeb i ni o'r digwyddiadau a adroddwyd dros y tri mis blaenorol. Gwnaethom nodi bod y staff yn defnyddio'r dulliau dad-ddwysáu lleiaf cyfyngol,

a dim ond pan fo gwir angen y câi ymyriad corfforol ei ddefnyddio. Fodd bynnag, roedd y data yn nodi y bu cynnydd yn y defnydd o neilltuo yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth ac nid oedd yn ymddangos bod hyn wedi sbarduno adolygiad penodol, fel y nodir yn y trefniadau ar gyfer monitro a goruchwyllo digwyddiadau o arferion cyfyngol.

Roedd polisïau ysgrifenedig ar waith ar gyfer defnyddio arferion cyfyngol. Fodd bynnag, y dyddiad a nodwyd ar gyfer adolygu'r polisi rheoli ymddygiad ymosodol oedd mis Awst 2017.

Yr hyn y mae angen ei wella

- Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod cynlluniau cefnogi ymddygiad cadarnhaol y cleifion yn adlewyrchu'n llawn y camau y dylai staff eu cymryd a lle y dylent gofnodi arsylwadau.
- Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod adolygiadau o'r defnydd o neilltuo yn cael eu cwblhau yn unol â'r trefniadau ar gyfer monitro a goruchwyllo achosion o arferion cyfyngol.
- Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i adolygu'r polisi rheoli ymddygiad ymosodol.

Cadw cofnodion

Gwelsom fod cofnodion gofal yn ymwneud â gofal y cleifion yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol.

Roedd y cofnodion yn dangos ymwneud y tîm amlddisgyblaethol, a sut roedd penderfyniadau ynghylch gofal y cleifion wedi'u gwneud. Fodd bynnag, gwnaethom nodi rhai bylchau yn y dogfennau derbyn ac asesu risg cychwynnol, lle nad oedd gwybodaeth ofynnol wedi'i chofnodi.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau y caiff y dogfennau derbyn ac asesu risg cychwynnol eu cwblhau'n llawn.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd strwythur rheoli ar waith, a disgrifiwyd a dangoswyd prosesau clir ar gyfer adrodd ac atebolrwydd.

Nodwyd gennym fod angen i'r bwrdd iechyd gymryd camau mwy rhagweithiol i fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag ystadau.

Nododd ein harsylwadau fod nifer y staff a'r cymysgedd sgiliau yn briodol i ddiwallu anghenion asesedig y cleifion. Fodd bynnag, roedd sylwadau a wnaed gan y staff yn cadarnhau nad oedd hyn bob amser yn wir. Rydym wedi gofyn i'r bwrdd iechyd gymryd camau i fynd i'r afael â'r sylwadau a dderbyniwyd gan y staff yn ystod ein harolygiad.

Gwelsom gydymffurfedd da â rhaglen hyfforddiant gorfodol y bwrdd iechyd ac roedd holl staff yr uned wedi cael arfarniad o'u gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Disgrifiodd uwch aelodau'r staff y strwythur rheoli a'r trefniadau ar gyfer monitro ansawdd, diogelwch a pherfformiad yr uned anabledd dysgu a'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd. Disgrifiwyd a dangoswyd prosesau clir ar gyfer adrodd ac atebolrwydd.

Darparodd uwch aelodau o'r staff fanylion strwythur llywodraethu Uned Cyflawni Anableddau Dysgu'r bwrdd iechyd. Roedd hyn yn dangos yn glir y gwahanol bwyllgorau, is-bwyllgorau a grwpiau sy'n rhan o'r strwythur llywodraethu.

Darparwyd enghraifft i ni o ddangosfwrdd perfformiad diweddar a gyflwynwyd i'r bwrdd iechyd fel rhan o'r trefniadau monitro ansawdd, diogelwch a

pherfformiad. Roedd hwn yn cynnwys ystod o ddata perthnasol am weithrediad gwasanaeth anabledd dysgu'r bwrdd iechyd. Er bod trefniadau wedi'u nodi, mae ein canfyddiadau o ran y materion amgylcheddol a nodwyd yn awgrymu y gallai'r bwrdd iechyd gymryd camau mwy rhagweithiol i fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag ystadau.

Dywedodd uwch aelodau o'r staff fod newidiadau wedi'u gwneud mewn ymateb i COVID-19 i hybu diogelwch a llesiant cleifion pan fo angen iddynt gael mynediad at wasanaethau anabledd dysgu'r bwrdd iechyd. Dywedwyd wrthym fod y bwrdd iechyd yn ystyried cynlluniau ar gyfer moderneiddio'r gwasanaethau anabledd dysgu yn eu cyfanrwydd. Ar adeg ein harolygiad, roedd diben yr uned anabledd dysgu yn y dyfodol heb ei benderfynu. Hyd nes caiff hyn ei benderfynu, mae'n debygol o achosi heriau i'r bwrdd iechyd o ran cynllunio staffio at y dyfodol a chreu amgylchedd sy'n addas ar gyfer y grŵp cleifion arfaethedig.

Ar adeg ein harolygiad, roedd rheolwr uned profiadol, sy'n nyrs gofrestredig, yn gyfrifol am yr uned. Dangosodd y rheolwr ddealltwriaeth glir o anghenion y cleifion sy'n cael eu lletya yn yr uned.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau, pan nodir problemau yn ymwneud ag ystadau, y cymerir y camau unioni angenrheidiol mewn da bryd.

Staff ac adnoddau

Y gweithlu

Ar adeg ein harolygiad, dywedwyd wrthym fod nifer y staff a'r cymysgedd sgiliau yn briodol i ddiwallu anghenion asesedig y cleifion sy'n cael eu lletya yn yr uned. Cadarnhaodd ein harsylwadau hyn hefyd.

Fodd bynnag, dywedwyd wrthym hefyd y bu adegau pan oedd niferoedd y staff yn is na'r hyn sy'n ofynnol i ganiatáu i'r staff gefnogi ac arsylwi'r cleifion yn effeithiol. Roedd trafodaethau gyda'r staff yn dangos eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gorweithio ac roeddent wedi digalonni.

Cadarnhaodd uwch aelodau o'r staff fod swyddi gwag yn yr uned a bod recriwtio'n parhau. Roedd yr wybodaeth a ddarparwyd i ni yn dangos bod y

rhain yn cyfateb i 4.22 aelod o staff amser llawn, gan gynnwys nyrsys cofrestredig a chynorthwyr gofal iechyd.

Roedd yr wybodaeth a ddarparwyd i ni'n dangos mai cyfartaledd cydymffurfedd yr uned â hyfforddiant gorfodol y bwrdd iechyd oedd 94 y cant. Roedd hyn yn rhagori ar darged y bwrdd iechyd o 90 y cant, ac roedd pob aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant yn y mwyafrif o'r pynciau a osodwyd.

Gwelsom hefyd fod holl staff yr uned wedi cael adolygiad arfarnu datblygiad personol dros y flwyddyn ddiwethaf.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r sylwadau a dderbyniwyd gan staff yn ystod ein harolygiad.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd o ran diogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn llunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn llunio cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pryd yr aethpwyd i'r afael â'r rhain

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu ysbytai

Mae amrywiaeth o ddulliau ar gael inni pan fyddwn yn arolygu ysbytai'r GIG, gan gynnwys:

- Arolygiad un ward trylwyr: rydym yn cynnal adolygiad trylwyr a manwl o un ward
- Arolygiad aml-ward: rydym yn ymweld â nifer o wardiau ac adrannau ar un safle ysbyty i nodi materion neu themâu a allai fod yn berthnasol i'r ysbyty cyfan
- Arolygiad aml-ysbyty: rydym yn ymweld â nifer o ysbytai yn yr un bwrdd iechyd i asesu llywodraethu a darpariaeth gwasanaethau cyfan

Mae arolygiadau o ysbytai yn ddirybudd fel rheol. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut y mae ysbytai'n bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle bo'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg o'r safonau gofal o fewn ysbytai.

Ceir gwybodaeth bellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ymdriniwyd â'n pryderon uniongyrchol drwy broses sicrwydd ar unwaith AGIC.	-	-	-

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Ysbyty: **Gwasanaeth Anabledd Dysgu (Cyf 21160)**

Dyddiad yr arolygiad: 15 Mawrth 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae AGIC yn mynnu manylion y camau a gymerwyd gan y bwrdd iechyd i wneud yr ardd a'r patio yn ddiogel.	Safon 2.1	Mae'r rhan fwyaf o'r ffensys bellach wedi'u gosod yn ôl, ond mae angen gosod rhai newydd yn eu lle. Yn y cyfamser, mae defnyddwyr y gwasanaeth yn cael eu goruchwyllo bob amser wrth fynd i'r ardd er mwyn sicrhau eu diogelwch. Mae cyfathrebu parhaus ag ystadau ynghylch yr amserlen ar gyfer gosod gweddill y ffens o'r newydd. Ni fydd y materion a nodwyd gan AGIC ar gyfer gweithredu yn cael eu hychwanegu'n ôl-weithredol at y ddogfen archwilio, ond caiff y camau	Rheolwr y Ward / Adran Ystadau'r Bwrdd Iechyd	Wedi'i chwblhau'n rhannol: i'w gwblhau erbyn 30 Ebrill 2022

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Safon 2.4	a gymerir i fynd i'r afael â nhw eu monitro drwy'r cynllun gweithredu hwn. Nid yw'r cleifion wedi mynd i'r man awyr agored heb gymorth y staff er mwyn sicrhau nad oedd yr eitemau / ffens wedi'i thorri yn peri risg i'w diogelwch. Mae'r dodrefn wedi torri / bin gwastraff clinigol ac eitemau eraill bellach wedi'u symud.	Rheolwr y Ward / Adran Ystadau'r Bwrdd Iechyd	Cwblhawyd
Mae AGIC yn mynnu manylion y camau a gymerwyd gan y bwrdd iechyd i wneud ystafell ymolchi'r anecs yn ddiogel.	Safon 2.1	Mae draen newydd bellach wedi'i osod.	Rheolwr y Ward / Adran Ystadau'r Bwrdd Iechyd	Cwblhawyd
Mae AGIC yn mynnu manylion y camau a gymerwyd gan y bwrdd iechyd i adolygu'r asesiad risg cyffredinol ar gyfer yr uned.	Safon 2.1	Asesiad amgylcheddol ac asesiad gwrth-glymu wedi'u cynnal o'r newydd ar 21.3.2022. Bydd rheolwr y gyfarwyddiaeth yn cynnal yr arolygiad archwilio iechyd	Rheolwr y Gyfarwyddiaeth, Anableddau Dysgu	30 Ebrill 2022

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		a diogelwch cyffredinol o'r newydd; adolygir y cynllun gweithredu.		
Mae AGIC yn mynnu manylion y camau a gymerwyd gan y bwrdd iechyd i ddangos bod yr offer a chyffuriau brys yn cael eu gwirio'n rheolaidd i gadarnhau eu bod ar gael ac yn ddiogel i'w defnyddio.	Safon 2.1	Cynhelir gwiriadau wythnosol gan staff y ward. Ffeiliwyd y ddalen flaenorol ar 8.3.22. Fe'i rhannwyd ag AGIC yn dilyn yr ymweliad. Cedwir y menig tafladwy yn y gorsafoedd cyfarpar diogelu personol ac mae gan yr uned stoc sylweddol o bob maint, felly nid oes angen rhagor o stoc ar hyn o bryd. Mae padiau llygaid newydd wedi'u harchebu gan fod y dyddiad ar yr eitemau blaenorol wedi dod i ben. Mae'r cyfarpar diffibrilio allanol awtomatig (na nodwyd gwiriad ar ei gyfer ar y rhestr wirio enghreifftiol wedi'i hymgorffori) wedi'i wirio ers hynny. Sicrheir bod gwiriadau ar y cyfarpar diffibrilio allanol awtomatig	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd 22.3.22 14.4.22 Gwiriad cyfarpar diffibrilio allanol awtomatig wedi'i gwblhau

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		yn cael eu cofnodi ar ddogfennau gwirio wythnosol yn y dyfodol.		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras): Stephen Jones

Swydd: Cyfarwyddwr Nyrsio, Grŵp Gwasanaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu

Dyddiad: 22.3.2022 / 14.4.2022

Atodiad C – Cynllun gwella

Ysbyty: **Gwasanaeth Anabledd Dysgu (Cyf 21160)**

Dyddiad yr arolygiad: 15 Mawrth 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodir yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella yn dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod amgylchedd yr uned yn cael ei gynnal i safon foddhaol.	4.1 Gofal ag urddas	Cyfrifoldeb rheolwr yr uned yw amgylchedd yr uned ac mae'n cael ei adolygu'n gyson. Mae proses ar waith ar gyfer hysbysu'r adran ystadau am bob cais cynnal a chadw ac i'r rheolwr ystadau fynd ar drywydd gwaith sy'n weddill. Bellach, mae cofnod o geisiadau yn cael ei gadw ar yr uned ac mae'r ceisiadau dilynol a negeseuon e-bost yn cael eu hanfon i sicrhau dilyniant amserol. Mae'r gwaith nad yw'n cael ei gwblhau mewn modd amserol yn cael ei	Rheolwr yr uned, Rheolwr y gyfarwyddiaeth a'r adran ystadau	Ar waith

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		uwchgyfeirio gan reolwr y ward a rheolwr y gyfarwyddiaeth. Adolygir hyn yn fisol. Mae Fframwaith Sicrwydd Ansawdd y Grŵp Gwasanaeth yn cynnwys gwiriadau ansawdd dirybudd sy'n cynnwys materion amgylcheddol. Cynhelir Archwiliad Amgylcheddol ffurfiol yn flynyddol gyda'r adran Iechyd a Diogelwch a adroddir i Reolwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth. Rhoddwyd sicrwydd ar unwaith o ran yr ystafell ymolchi, yr eitemau a oedd wedi torri a'r ffens y nododd y tîm adolygu, ac mae'r gwaith hwn wedi'i gwblhau. O'r pum ystafell wely yn yr uned, mae dwy ystafell wely sy'n cael eu dadgomisiynu ar hyn o bryd [TESTUN WEDI'I DDILEU I DDIBEN PREIFATRWYDD]. Mae un o'r ystafelloedd gwely hyn sydd wedi'u dadgomisiynu yn cael ei defnyddio ar gyfer storio ac nid yw'r llenni ar gyfer yr		

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		ystafell yn eu lle ar hyn o bryd oherwydd COVID-19. Mae caeadau ffenestri gan y tair ystafell wely sy'n cael eu defnyddio ar gyfer ystafelloedd gwely cleifion. Nid yw llenni'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd oherwydd agweddau atal a rheoli heintiau yn sgil COVID-19 Mae ffenestr un ystafell wely wedi'i chloi oherwydd patrwm ymddygiad rheolaidd y claf o roi ysgarthion drwy'r ffenestr i ardal a rennir gan y cleifion. Rydym yn archwilio opsiynau clinigol amgen i roi mwy o gyfle i ddarparu mwy o awyru a dewis. Yn y cyfamser, manteisir ar gyfleoedd bob dydd ar gyfer gwella llif aer pan na ddefnyddir yr ystafell. Mae'r adran ystadau wedi cael gwybod am y ffenestr arall na ellid ei hagor yn yr ystafell wely ac mae angen mynd ar drywydd y gwaith hwn yn unol â'r broses a amlinellwyd uchod. Nid oes dyddiad wedi'i gadarnhau ar		Gorffennaf 2022 Mehefin 2022

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		gyfer un newydd hyd yn hyn ond mae angen mynd ar drywydd hwn yng nghyfarfod misol nesaf yr ystâd ym mis Mehefin.		
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i arddangos gwybodaeth berthnasol yn yr uned a allai fod o gymorth i'r cleifion, e.e. deunydd hybu iechyd, am yr eiriolaeth sydd ar gael, gwybodaeth am COVID-19, a sut i roi adborth neu gwyno.	4.2 Gwybodaeth i gleifion	Darperir gwybodaeth i unigolion pan gânt eu derbyn, gan gynnwys gwybodaeth am COVID-19. Bydd yr uned yn darparu gwybodaeth hygyrch yn y cyntedd yn nodi sut i roi adborth neu wneud cwyn a gwybodaeth hybu iechyd gyffredinol i'r cleifion a'r ymwelwyr. Mae gwybodaeth am y gwasanaeth Eiriolwyr Iechyd Meddwl Annibynnol ar gael i'r cleifion ac fe'i darperir ar sail unigol, ond byddant eisoes wedi derbyn yr wybodaeth hon os oes eiriolwr eisoes wedi'i neilltuo iddynt.	Rheolwr yr uned	17 Mehefin
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau y caiff y cleifion eu hasesu'n brydlon, yn unol â'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid.	6.2 Hawliau pobl	Cedwir cofnod o statws y trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid a'r dyddiad awdurdodi yng nghofnod y claf. Anfonir ffurflen adnewyddu chwech wythnos cyn y dyddiad y daw i ben, ac	Rheolwr adrannol	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		anfonir nodyn atgoffa i'r tîm trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid ymhen tair wythnos i osgoi unrhyw awdurdodiadau rhag dod i ben. Os daw i'r amlwg bod awdurdodiad y trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid yn cyrraedd y cam y daw i ben, caiff hyn ei gofnodi fel digwyddiad DATIX ac rydym wedi sicrhau bod hwn wedyn yn cael ei adolygu a'i uwchgyfeirio. Cafodd hwn ei uwchgyfeirio'n briodol i arweinydd y trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'r ôl-groniad o geisiadau am drefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid. Mater cenedlaethol yw hwn ac mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i fyrddau iechyd fynd i'r afael â hwn. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe wedi cyflogi aseswyr budd gorau asiantaeth ac mae'r asesiadau sy'n weddill yn [TESTUN WEDI'I DDILEU I DDIBEN PREIFATRIFYDD]	Rheolwr yr uned Pennaeth Corfforaethol Nyrsio Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid	Cwblhawyd Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		bellach wedi'u prosesu ac mae trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid ar waith.		
Cyflawni gofal diogel ac effeithiol				
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddarparu dodrefn bwyta addas i'r cleifion eu defnyddio tra'u bod yn lletya yn yr uned.	2.5 Maeth a hydradu	Maen nhw wedi cael gwared ar y bwrdd bwyta dros dro ac mae bwrdd a chadeiriau bellach wedi'u darparu.	Rheolwr yr uned	Cwblhawyd
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod y staff yn ymlynu at y polisi meddyginiaeth o ran cofnodi statws alergedd y cleifion.	2.6 Rheoli meddyginiaethau	Mae statws alergedd ar y siart meddyginiaeth wedi'i gwblhau ar gyfer pob claf mewnol Bydd archwiliadau meddyginiaeth yn casglu'r wybodaeth hon yn y dyfodol.	Rheolwr yr uned	Cwblhawyd
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod cynlluniau cefnogi ymddygiad cadarnhaol y cleifion yn adlewyrchu'n llawn y camau y dylai staff eu cymryd a lle y dylent gofnodi arsylwadau.	3.1 Gofal diogel a chlinigol effeithiol	Mae polisi arsylwi newydd bellach ar waith. Mae cynlluniau gofal arsylwi ar waith ac mae'r polisi arsylwi yn nodi'r elfennau o gofnodi arsylwadau'r cleifion. Mae strategaethau rheoli cymorth ymddygiad cadarnhaol wedi'u cynnwys yn y cynlluniau cymorth ymddygiad cadarnhaol.	Rheolwr yr uned	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod adolygiadau o'r defnydd o neilltuo yn cael eu cwblhau yn unol â'r trefniadau ar gyfer monitro a goruchwyllo achosion o arferion cyfyngol.	3.1 Gofal diogel a chlinigol effeithiol	Cwblheir digwyddiadau DATIX ar gyfer pob defnydd o neilltuo, mae'r gwaith papur neilltuo ynghlwm wrth DATIX. Mae pob digwyddiad o neilltuo yn cael ei adolygu mewn rowndiau ward wythnosol ac os oes angen, mae unrhyw strategaethau rheoli newydd yn cael eu cynnwys mewn cynllun cymorth ymddygiad cadarnhaol sydd wedi'i ddiweddarau. O fewn y Grŵp Gwasanaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu a'r Grŵp Iechyd a Diogelwch, darperir gwybodaeth DATIX yn ddeufisol. Bob mis, mae cerdyn sgorio perfformiad anableddau dysgu yn coladu ac yn adolygu digwyddiadau a adroddir ar DATIX	Rheolwr yr uned, Nyrs Arweiniol a Rheolwr y gyfarwyddiaeth	Cwblhawyd
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i adolygu'r polisi rheoli ymddygiad ymosodol.	3.1 Gofal diogel a chlinigol effeithiol	Mae'r uned wedi cael gwared ar y copïau caled o'r holl bolisiâu ac atgoffwyd y staff bod modd cael mynediad at bolisiâu gweithredol ar y fewnwyd lle cedwir yr holl bolisiâu	Pennaeth Iechyd a Diogelwch	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		diweddaraf. Gofynnwyd i staff yr uned hefyd sicrhau eu bod yn ymwybodol o gynnwys y polisi cyfredol er mwyn osgoi unrhyw ddryswch ynghylch y copi anghywir a roddwyd i AGIC. Mae'r Polisi Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol sydd ar gael wedi'i atodi isod. Disgwylir iddo gael ei adolygu ym mis Hydref eleni.		
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau y caiff y dogfennau derbyn ac asesu risg cychwynnol eu cwblhau'n llawn.	3.5 Cadw cofnodion	Mae'r holl ddogfennau derbyn ac asesiad risg cychwynnol yn cael eu cwblhau, ac rydym yn ymgorffori cynlluniau gofal unigol y claf, e.e. cynlluniau cymorth ymddygiad cadarnhaol fel rhan o'r asesiad cychwynnol hwn Mae'r holl staff wedi cael eu hatgoffa i sicrhau eu bod yn ymgorffori cynlluniau cymorth ymddygiad cadarnhaol a chynlluniau gofal y claf yn ei asesiad risg cychwynnol ac yn cyfeirio atynt. Mae archwiliadau rheolaidd o gadw	Rheolwr yr uned Nyrs Arwain	Cwblhawyd Mae archwiliadau deufisol ar

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		cofnodion yn cael eu cynnal fel rhan o weithrediad y Grŵp Gwasanaeth o'r Fframwaith Sicrwydd Ansawdd. Mae'r archwiliadau deufisol hyn yn cael eu hadolygu o fewn y gyfarwyddiaeth a'u hadrodd drwy'r strwythur llywodraethu is-adrannol i roi sicrwydd bod safonau'n cael eu bodloni.		waith.
Ansawdd rheolaeth ac arweiniaeth				
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau, pan nodir problemau yn ymwneud ag ystadau, y cymerir y camau unioni angenrheidiol mewn da bryd.	Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd	Rydym yn parhau i gysylltu â rheolwyr yr ystadau a'r uwch-reolwyr ar gyfer uwchgyfeirio a chwblhau materion ystadau. Mae cofnod o geisiadau yn cael ei gadw ar yr uned ac mae'r ceisiadau dilynol a negeseuon e-bost yn cael eu hanfon i sicrhau dilyniant amserol. Mae'r gwaith nad yw'n cael ei gwblhau mewn modd amserol yn cael ei uwchgyfeirio gan reolwr y ward a rheolwr y gyfarwyddiaeth. Mae cyfarfodydd misol gyda'r adran	Rheolwr yr uned ac ystadau	22 Mehefin

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		ystadau yn cael eu sefydlu ar hyn o bryd i adolygu'r gwaith sydd ei angen		
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r sylwadau a dderbyniwyd gan staff yn ystod ein harolygiad.	7.1 Y gweithlu	Mae amserlen ar waith ar gyfer cynnal cyfarfodydd tîm yn fisol gyda rheolwr y ward a thîm y staff, a sesiynau goruchwyllo rheolaidd gyda staff unigol. Mae hwn yn cynnig y cyfle i drafod a rhannu materion sy'n wynebu'r uned a'r is-adran a datblygu atebion. Mae'r uwch-nyrs arweiniol a rheolwr y gyfarwyddiaeth yn cysylltu'n rheolaidd â'r uned a thîm y staff, ac yn cyfarfod ag aelodau unigol o staff yn ôl y gofyn. Adroddir ar lesiant a phrofiad y staff o fewn strwythur llywodraethu'r is-adran fel bod y rheolwyr yn ymwybodol o faterion sy'n datblygu ac yn gallu gweithredu arnynt. Mae tîm rheoli'r is-adran yn cynnal sesiynau holi ac ateb yn rheolaidd ar gyfer yr holl staff ar draws yr is-adran i helpu i wrando ar y staff. Mae heriau cenedlaethol o ran hyfforddi	Rheolwr yr uned, Nyrs Arweiniol a Rheolwr y gyfarwyddiaeth	Mae'r broses ar waith ac mae staff sydd newydd gymhwyso yn cael eu recriwtio trwy'r broses symleiddio – Medi 2022.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		a recriwtio Nyrsys Anabledd Dysgu Cofrestredig. Mae'r grŵp gwasanaeth yn cynnal cyfarfodydd misol gyda'r gweithlu nyrsio lle mae materion recriwtio, cadw, defnydd o weithlu hyblyg a phrofiad y claf yn cael sylw. Mae gan yr is-adran anableddau dysgu gynllun gweithlu ar waith sy'n mynd i'r afael â'r pwysau presennol ar y gweithlu gan ddefnyddio adnoddau ar draws y tair ardal bwrdd iechyd i ddarparu gofal diogel. Mae'r broses recriwtio ar gyfer staff nyrsio sydd newydd gymhwyso yn cael ei chynnal drwy'r broses symleiddio, a mis Medi 2022 yw'r dyddiad cychwyn disgwyledig ar gyfer y staff sy'n mynd drwy'r broses symleiddio.		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): **Stephen Jones**
Swydd: **Cyfarwyddwr Nyrsio, Grŵp Gwasanaeth**
Dyddiad: **1.6.22**